

DCD (Anhwylder Cydlynu Datblygiadol) neu Ddyspracsia

Mae DCD (Anhwylder Cydlynu Datblygiadol) neu Ddyspracsia yn anhwylder echddygol sy'n effeithio ar oddeutu dau neu dri y cant o boblogaeth oedolion yn y DU ac yn effeithio ar sgiliau bywyd pob dydd person, megis paratoi pryd bwyd.

Mae'r anawsterau a ddisgrifiwyd yn cynnwys:

- Anawsterau gyda llawysgrifen
- Sgiliau lle mae angen cydbwysedd
- Yn arafach wrth ddysgu sgiliau newydd lle mae angen cyflymder neu gywirdeb
- Dysgu gyrru
- Sgiliau trefnu, rheoli amser a chynllunio
- Nodi gwybodaeth ar gyflymder
- Anawsterau llywio, hyd yn oed yn achos lleoedd maent wedi ymweld â hwy'n flaenorol

Cynghorion Defnyddiol i Staff Academaidd

- Fel arfer, mae llawysgrifen yn anhawster mawr ac weithiau, gellir hefyd effeithio ar y gallu i deipio
- Mae hergydion, codymau, cwympiadau'n gyffredin a gall hyn effeithio ar waith ymarferol
- Gall y lleferydd fod yn aneglur ac efallai y bydd anhawster ynganu rhai geiriau, ac y gall hyn achosi pryder yn ystod, e.e., cyflwyniadau
- Caiff rhai myfyrwyr sydd â DCD/Dyspracsia drafferth trefnu cynnwys a rhediad eu hiaith; osgowch bwyso ar y myfyriwr yn ystod trafodaethau a rhowch amser iddynt lunio eu hymatebion
- Gall blinder corfforol ddigwydd oherwydd osgo a chyflwr cyhyrau gwael
- Mae'r cof yn wael, fel arfer, yn enwedig cof tymor byr ac mae tuedd i fod yn anhrefnus
- Gall dilyniant gwael achosi problemau gyda gweithgareddau sy'n cynnwys Mathemateg, darllen, sillafu ac aseiniadau strwythuro
- Mae adleoli gwael – edrych yn gyflym ac yn effeithiol o'r naill wrthrych i'r llall – yn gyffredin a gall hyn gael effaith wrth gopïo o ffwrdd, sgrin neu lyfr
- Gall fod anhawster gwahaniaethu synau oddi wrth sŵn cefndirol ac efallai y byddant yn sensitif i olau neu sŵn ac y gall hyn effeithio ar ganolbwyntio

Am ragor o wybodaeth ewch i www.dyspraxiafoundation.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch a'ch Cydlynnydd Cymorth Dysgu